

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Cymraeg**

Enw'r Awdur:

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Gwyddoniadur Cymru. Davies, J et al**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu
gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -
teitl/Cyrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Prifysgol Cymru**

Tudalennau a sganiwyd: **227 - 233**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Methodoleg Astudio ac Ymchwilio CYCS7014C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio:

E.L. Hamb

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 12.10.16.

Moodle/Powerpoint

parhau hyd heddiw i gyhoeddi'r *Trafodion* blynyddol, a sefydlwyd yn 1892–3. Hi hefyd a fu'n gyfrifol am *Y Bywgraffiadur Cymreig* a'i atodiadau.


CYMRAEG

Bu'r iaith Gymraeg yn elfen ganolog yn ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry ar hyd y canrifoedd. Hi, heb unrhyw amheuaeth, yw'r fwyaf llewyrchus heddiw o blith yr ieithoedd Celtaidd (gw. **Celtiaid**), ac ymhlith yr ieithoedd brodorol hynny nad ydynt yn brif iaith unrhyw wladwriaeth yn Ewrop – tuag 20 o ieithoedd i gyd – y mae'r Gymraeg ymysg yr enghreifftiau mwyaf hyfyw. Dangosodd cyfrifiad 2001 fod 575,730 o drigolion Cymru dros dair oed – 20.5% o'r **boblogaeth** – yn gallu siarad Gymraeg. Fodd bynnag, nid gwaith hawdd yw dehongli ystadegau'r cyfrifiad hwnnw. Mae'r ffigur o 575,730 yn seiliedig ar dair gradd o hyfedredd ieithyddol: y gallu i siarad Gymraeg yn unig (79,310); y gallu i siarad ac i ddarllen ond nid i ysgrifennu'r iaith (38,384); a'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith (457,946), sef sgiliau'r rhai hynny a ystyrir yn 'gwbl rugl eu Gymraeg' mewn cofnodion eraill yn y gwyddoniadur hwn. Yn ychwanegol at hynny, nododd 138,416 o drigolion y wlad yn 2001 eu bod yn deall Gymraeg ond heb fedru ei siarad. (Mae'n bosibl fod y ffigur hwn yn cynnwys llawer o siaradwyr llai hyderus nad oeddynt yn barod i arddel eu holl sgiliau ieithyddol yn wyneb natur swyddogol y cyfrifiad.) Ymhellach, mynegodd 83,661 fod ganddynt gyfuniadau pellach o sgiliau er na nodir pa rai'n union oedd y rheini. Gellir honni felly fod 28.43% o boblogaeth Cymru dros dair oed, sef 797,661 o drigolion y wlad, â rhyw fesur o afael ar yr iaith. Er y dylid eu trin yn ochelgar, awgryma'r ffigurau hyn fod y lleihad cyson a fu er diwedd y 19g. yng nghanran siaradwyr y Gymraeg, ynghyd â'r lleihad a fu mewn niferoedd absoliwt er 1911, bellach wedi peidio â bod a bod yr iaith fel petai'n adennill tir.

Yn siroedd **Gwynedd** (68.7%; 76.11% â rhai sgiliau), **Ynys Môn** (59.8%; 70.4% â rhai sgiliau), **Ceredigion** (51.8%; 61.24% â rhai sgiliau) a **Chae'r Fyrdin** (50.1%; 63.59% â rhai sgiliau) y cofnodwyd y canrannau uchaf o siaradwyr Gymraeg, a cheir yn y **siroedd** hyn gyfanswm o 237,766 o siaradwyr. Ceir y canrannau isaf yn siroedd y de-ddwyrain, sef **Sir Fynwy** (9.02%), **Blaenau Gwent** (9.05%) a **Chasnewydd** (9.56%). Ond er mor isel, ar y cyfan, yw'r canrannau ym mroydd poblog y de-ddwyrain, o ran rhifau absoliwt gwelir bod 195,926 o siaradwyr Gymraeg yn hen siroedd Morgannwg a Mynwy (gw. **Sir Forgannwg** a **Sir Fynwy**), a cheir bod dwywaith yn fwy o siaradwyr Gymraeg yng **Nghaerdydd** nag ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sef 31,944 o gymharu â 15,332.

Cyfnodau'r iaith

A hithau'n iaith Geltaidd, mae'r Gymraeg yn perthyn i'r tylwyth ieithyddol Indo-Ewropeaidd. Dengys **enwau lleoedd** megis Lyon, Leiden, Laon a Nantlle (y cwbl yn coffáu'r duw Celtaidd Lug, sef **Lleu** yn Gymraeg), ac enwau **afonydd** megis Donaw, Rhôn a Rhein, fod i'r ieithoedd Celtaidd ar un adeg ddosbarthiad daearyddol eang. Fodd bynnag, ar dir mawr Ewrop (ar wahân i **Lydaw**) ni lwyddasant i oroesi'r cyfnod Rhufeinig a daeth terfyn ar ieithoedd megis Celtibereg (a siaredid yng ngogledd Sbaen), Leponteg (a



Y Gymraeg, c.1750–1991

berthynai i ogledd yr Eidal) a Galateg (a siaredid yn Anatolia, sef Twrci yn ddiweddarach) erbyn y 5g. Yr un hefyd fu tynged Galeg a siaredid yng Ngâl, ond mae'n bosibl fod Llydaweg, sy'n tarddu'n bennaf o iaith ymfudwyr o **Brydain** i Lydaw, yn cynnwys rhai elfennau Galeg.

Roedd tynged ieithoedd Celtaidd Prydain ac **Iwerddon** yn bur wahanol, ac mae'r ieithoedd hyn yn ymrannu'n ddau grŵp: yr ieithoedd Goedeleg, sef Gwyddeleg, Gaelleg yr Alban, a Manaweg; a'r ieithoedd Brythonig, sef Cymraeg, Cwmbreg, Cernyweg a Llydaweg. Arferir hefyd y termau 'Celteg Q' a 'Celteg P' wrth gyfeirio at y ddau grŵp, gan fod y sain wefus-yddfol *kw* (neu *qu*) mewn Indo-Ewropeg wedi ei dadwefusoli'n *c* yn yr ieithoedd Goedeleg ond wedi ei gwefusoli'n *p* mewn Brythoneg, datblygiad a roes *mhac* yn yr Wyddeleg ond *map* (yn ddiweddarach *mab*) yn y Gymraeg, *ceathoir* yn y naill ond *pedwar* yn y llall.

Tabl 1
Geiriau cytras yn yr ieithoedd Celtaidd

Cymraeg	Llydaweg	Gwyddeleg	Gaeleg
tŷ	ti	teach	tigh
ci	ki	cu	cu
du	du	dubh	dubh

Pan ddaeth y **Rhufeiniaid** i Brydain siaredid Brythoneg o Fôr Udd hyd Aber Gweryd a Glannau Clud yn yr **Alban**. O dan ddylanwad Rhufain benthycodd y Frythoneg rai cannoedd o eiriau o'r **Lladin**, ac roedd rhai ohonynt – geiriau megis *abecedarium* a *liber*, sef *egwyddor* ('yr wyddor') a *llyfr* erbyn hyn yn y Gymraeg – yn gysylltiedig

â gwrthrychau a phethau a oedd yn ddieithr i'r Brythoniaid cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Ym marn **Kenneth H. Jackson** bu newidiadau mwy sylfaenol o ddechrau'r 5g. ymlaen. Yn ystod hanner cyntaf y 6g. trawsnewidiwyd adeiledd yr iaith a hynny mewn cyfnod o anhrefn cymdeithasol a achoswyd gan ddyfodiad yr **Eingl-Sacsoniaid**. Erbyn ail hanner y 6g. priodol yng ngolwg Jackson yw sôn am fodolaeth y Gymraeg a'i chwaer-ieithoedd. Colli sillafau terfynol a therfyniadau cyflyrol y Frythoneg oedd y newid pellgyrhaeddol a ddigwyddodd bryd hynny gyda ffurfiau Brythoneg megis *Cunobelinos* yn rhoi inni'r enw Cymraeg *Cynfelyn*. Erbyn hyn, fodd bynnag, tuedd ysgolheigion ieithyddol yw ymwrthod â'r syniad o ddadfeiliad sydyn a chosleiddio'r awgrym mai newid graddol dros nifer o ganrifoedd a gafwyd, ac awgrymir bod y prif gyfnodiadau eisoes yn bresennol ar lafar erbyn dechrau'r 6g.

Dynodir y cyfnod hyd at ddiwedd yr 8g. fel cyfnod Cymraeg Cynnar neu Gymraeg Hynafol. Er ei bod yn ddichonadwy fod y Gymraeg yn iaith ysgrifenedig erbyn dechrau'r 7g., ar wahân i arysgrif enwog **Tywyn** (7g.–9g.) yr unig dystiolaeth arall sydd wedi goroesi yw enwau mewn llawysgrifau Lladin ynysol ac ar gofebau Lladin (gw. **Cofebau Cristnogol Cynnar**). I gyfnod Hen Gymraeg (diwedd yr 8g. hyd ganol y 12g.) y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o Gymraeg ysgrifenedig mewn llawysgrifau. Ymhlith y ffynonellau pwysicaf y mae cofnod *Surexit* yn **Llyfr St Chad**, '*Englynion y Juvenius*', *Darn y Computus*, a deunyddiau yn *Llyfr Llandaf* (gw. *Liber Landavensis*). Erbyn cyfnod Cymraeg Canol (12g.–15g.) nid oes unrhyw brinder dystiolaeth, a gellir tynnu ar gyfoeth y traddodiad llenyddol Cymraeg er mwyn amgylfred natur yr iaith (gw. **Llenyddiaeth**).

O'r 15g. ymlaen priodol yw sôn am gyfnod Cymraeg Modern, a rhwng dechrau'r 17g. a'r 20g. diogelwyd undod yr iaith lenyddol gan y **Beibl** Cymraeg a gyhoeddwyd gyntaf yn 1588. Er bod cryn fwch rhwng Cymraeg llenyddol a Chymraeg llafar, bu parhad di-dor yr iaith lenyddol yn fantais ddigymysg i'r Gymraeg wrth iddi gogleiddio'r argraff-wasg ac ennill troedle drachefn yn y cyfnod diweddar ym myd **addysg**, y **gyfraith** a gweinyddiaeth gyhoeddus. Bu ei phrofiad yn hynny o beth yn wahanol i rai o ieithoedd anwladwriaethol eraill Ewrop. Yn achos Basgeg, er enghraifft, bu'n rhaid mynd ati yn y cyfnod modern i greu cywair safonol a allai bontio'r bwlch rhwng y tafodieithoedd, tasg nad oedd yn rhaid ei chyflawni yn achos y Gymraeg. Ar ddechrau'r 21g. mae geirfa'r Gymraeg yn parhau'n drwyadl Geltaidd o ran tarddiad. Yn ystod yr Oesoedd Canol daeth rhagor o eiriau Lladin i'r iaith, gyda'r rhan fwyaf ohonynt, *berf* o *verbum* er enghraifft, yn fenthyciadau dysgedig. Mae ychydig fenthyciadau o'r Wyddeleg – *brechdan* er enghraifft – yn parhau'n eiriau byw fel ag y mae *gardd* ac *iarl*, dau air sy'n tarddu o iaith y **Llychlynwyr**. Yn ystod yr Oesoedd Canol gwelir nifer o eiriau Ffrangeg, *pali* (math o sidan) a *swmer* (pac ar geffyl) er enghraifft, yn ymddangos yn yr iaith, ond mae'n bosibl mai trwy gyfrwng y **Saesneg** y benthycwyd llawer o'r rhain. Prin fod angen nodi mai Saesneg yw ffynhonnell y rhan fwyaf o eiriau benthyc yn y Gymraeg. Er hynny, yn y cyfnod diweddar, gwelwyd ymdrech fawr i greu a safoni termau technegol cynhenid sy'n arwydd fod y Gymraeg yn ymgodymu'n llwyddiannus â'r byd modern.

Tafodieithoedd

Heb unrhyw **Lundain** na Pharis i ddyrchafu ei thafodiaith hi ei hun yn batrwm o 'gywirdeb' ar gyfer gweddill y wlad, ni fu'r cyd-destun cymdeithasol-wleidyddol Cymreig yn ffafriol i greu ynganiad 'safonol' yn achos y Gymraeg. Er bod y cywair ffurfiol-lenyddol hwnnw a elwid yn 'Gymraeg y pulpud' yn amlwg iawn yng nghapeli'r 19g., ac er ei fod o hyd – mewn ffurf fwy hyblyg a modern mae'n ddigon gwir – yn nodwedd ar areithio cyhoeddus, addysg ac agweddau mwy ffurfiol ar **ddarlledu**, yn eu tafodieithoedd, yn amlach na pheidio, y bydd siaradwyr brodorol yn parhau'n ddi-gymell. Bu'r Cymry yn ymhyfyryd yn eu tafodieithoedd o'r Oesoedd Canol ymlaen. Ceir cyfeiriadau ym marddoniaeth y **Gogynfeirdd** at y Wenhwyseg (tafodiaith **Gwent** ynghyd â dwyrain a chanol Sir Forgannwg) a'r Wyndodeg (tafodiaith Gwynedd), ac yn 1188 nododd **Gerallt Gymro** fel yr haerau rhai 'bod yr iaith yn fwy dilyn, yn goethach, ac yn fwy canmoladwy yng ngogledd Cymru', tra tystiai eraill 'mai ardal Ceredigion... a ddefnyddia'r iaith arbenicaf a mwyaf canmoladwy'.

Yn draddodiadol, ystyrir bod gan y Gymraeg bedwar prif ranbarth tafodieithol: y gogledd-orllewin (Gwyndodeg); y gogledd-ddwyrain a'r canolbarth (Powysseg); gorllewin Cymru (Dyfedeg); a de-ddwyrain Cymru (Gwenhwyseg). Dangosodd ymchwil Alan R. Thomas i amrywio geirfaol yng Nghymru fod chwe phrif ardal dafodieithol, a gellir eu rhannu ymhellach yn 16 o fân ardaloedd. Serch hynny, yn ymwybyddiaeth ieithyddol y Cymry, y gwahaniaethau rhwng iaith y de ac iaith y gogledd, sef iaith y **Gogs a'r Hwntws**, sy'n cael y lle amlycaf o hyd. Amhosibl yw penderfynu pa le'n union y try'r Gog yn Hwntw. O ran ynganiad, un o'r prif wahaniaethau rhwng de a gogledd yw absenoldeb y sain *-u-* yn iaith y rhan fwyaf o drigolion y de gyda'r canlyniad na wahaniaethir yno rhwng geiriau megis *hin* a *hun* neu *mil* a *mul*. Yng nghyffiniau Dyffryn **Dyfi** y diflanna'r *-u-*. Ond yn achos un o'r amrywiadau geirfaol mwyaf hysbys, *mas* ac *allan*, ceir bod y ddwy ffurf yn cydfodoli yng ngogledd Ceredigion, a bod yn rhaid mynd i dde'r sir i glywed *mas* yn ddieithriad ar enau'r brodorion. Yn yr un modd, rhaid fyddai i ogleddwr neu ogleddwraig sy'n hoffi *paned* neu *banad* o de gyrraedd glannau afon **Llŵchwr** cyn cael cynnig *dishglid* neu *ddishglid* o de.

Yn sgil dyfodiad darlledu a'r cynnydd mawr yn nifer-oedd y rhai hynny sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, gwelwyd erydu ar dafodieithoedd y Gymraeg, ac mae'n bosibl mai ymdebygu ymhellach fydd eu hanes. Petai'r Cymry i gyd yn siaradwyr Cymraeg, y dafodiaith gryfaf erbyn hyn fyddai'r Wenhwyseg, sef tafodiaith yr ardal lle mae hanner poblogaeth y wlad yn byw. Er hynny, yn sgil yr ymdrechion i adfer yr iaith yn y de-ddwyrain ni welwyd unrhyw adfywiad yn hanes yr Wenhwyseg, a dim ond ar wefusau'r henoed mewn mannau fel **Aberdâr** a **Rhymni** y mae i'w chlywed bellach. O gofio bod hyd at 90% o'u disgyblion yn dod o gefndiroedd Saesneg, a bod llawer o'r athrawon yn hanu o ardaloedd eraill yng Nghymru, mae'n anochel fod ysgolion Cymraeg yr ardaloedd hyn yn cyflwyno'u disgyblion i gywair ieithyddol mwy gwneuthuredig, er mai acen hanfodol ddeheuol a glywir ar wefusau'r disgyblion.



Rhan o arysgrif Tywyn, 7g.–9g.

Hanes cymdeithasol yr iaith

Yn ystod yr union gyfnod pan ddaeth i fodolaeth profodd y Gymraeg enciliad tiriogaethol anferthol. Erbyn diwedd y 7g. roedd grym yr Eingl-Sacsoniaid wedi lledaenu hyd at aberoedd **Hafren** a **Dyfrdwy**, ac o'r 8g. ymlaen priodol yw uniaethu'r Gymraeg â'r wlad a adwaenwn erbyn heddiw fel Cymru, er mai'n araf, efallai, y mabwysiadwyd iaith y concwerwr gan y brodorion yn y tiroedd hynny a goncrwyd. Roedd perthynas neilltuol agos rhwng y Gymraeg a Chwmbreg, iaith yr **Hen Ogledd**. Dichon na lwy'r ddiflannodd honno yn **Ystrad Clud** hyd at dranc y deyrnas yn gynnar yn yr 11g. ac y mae i'w gweld o hyd mewn enwau lleoedd megis Ecclefechan (Cymraeg, *Eglwysfechan*).

Gydol yr Oesoedd Canol roedd y Gymraeg yn iaith a siaredid ar hyd a lled Cymru. Yn ystod yr 11g. cafodd y rhan o **Sir y Fflint** sydd i'r dwyrain o **Glawdd Offa**, y rhan lle'r oedd yr Eingl-Sacsoniaid wedi ymsefydlu, ei hail-Gymreigio a pharheid hefyd i siarad yr iaith mewn mannau sydd erbyn heddiw yn **Swydd Amwythig** a **Swydd Henffordd**. Oddi mewn i'r Eglwys, roedd y Gymraeg, yn naturiol, yn ddarostyngedig i Ladin, ond ym maes y gyfraith roedd y

Gymraeg yn tra-arglwyddiaethu. Er mai Lladin yw iaith y testunau cyfreithiol cynharaf sydd wedi goroesi, Cymraeg yn sicr ddigon oedd eu hiaith wreiddiol.

Cymhlethwyd y sefyllfa ieithyddol o ganlyniad i ddyfodiad y **Normaniaid**. Er mai **Ffrangeg** oedd iaith yr arglwyddi Normanaidd, Saesneg a siaredid gan yr iwmyn hynny a ddaeth i wladychu ardaloedd megis **Bro Morgannwg** a **Gŵyr**. Saesneg hefyd yn y man fyddai iaith y **Ffleminiaid** a ymsefydlodd yn **Rhos** a **Daugleddau** yng ngorllewin **Dyfed**. Bu mwy o ymsefydlu yng nghefn gwlad yn sgil y **Goresgyniad Edwardaidd**, a chynyddodd y goresgyniad hefyd nifer y **bwrdeistrefi** a fu'n gadarnleoedd estron oddi ar eu dechreuadau. Ond ni ddylid gorbwysleisio graddfa'r Seisnigo hwn. Er gwaetha'r goncwest, roedd y Gymraeg yn parhau'n iaith o bwys mewn perthynas â'r gyfraith, a dengys y corff cynyddol o lenyddiaeth grefyddol Gymraeg fod iddi swyddogaeth bwysig oddi mewn i'r Eglwys. Yn fwy arwyddocaol fyth, o dan nawdd y tywysogion, ac yna'r uchelwyr, esgorwyd ar un o brif lenyddiaethau Ewrop yn yr Oesoedd Canol. Yn niwedd yr Oesoedd Canol, wrth i drigolion yr ucheldiroedd ailwladychu'r gwastatiroedd, gwelwyd y Gymraeg yn adennill tir mewn mannau a oedd wedi eu Seisnigo. Digwyddodd hyn ym Mro Morgannwg yn arbennig, ond hefyd ar y Gororau mewn arglwyddiaethau megis Croesoswallt a'r Dref-wen (Whittington). Wrth iddynt ymbriodi â theuluoedd uchelwrol brodorol, daeth y Gymraeg hefyd yn rhan o brofiad diwylliannol cyfran dda o'r *advenae* a ddaeth i Gymru yn sgil y goresgyniad. Er i Roger de Puleston gael ei grogi yn ystod gwrthryfel **Madog ap Llywelyn** (1294) oherwydd ei wrthysedd gwrth-Gymreig, erbyn y 15g. roedd rhai o'i ddisgynyddion ymhlith noddwyr amlycaf y beirdd yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac yn arddel perthynas trwy briodas ag **Owain Glyndŵr**. Yn yr un modd, gwelwyd Cymry yn ymsefydlu yn y bwrdeistrefi, ac erbyn y 15g. roedd y mwyafrif o drigolion **Aberystwyth** yn dwyn enwau Cymraeg. Gwelir hefyd fod enwau Cymraeg yn dechrau ymddangos yng nghofnodion bwrdeistrefi megis **Dinbych-y-pysgod** a oedd wedi bod yn Seisnig i'r carn cyn hynny.

Eto i gyd, os oedd y Gymraeg yn adennill tir, roedd hynny'n sicr yn wir yn achos y Saesneg. Yn **Lloegr** gwelwyd Saesneg yn disodli Lladin a Ffrangeg fel iaith y rhan fwyaf o ddogfennau cyfreithiol, a thros yr un cyfnod ymwrthod graddol â'r gyfraith Gymreig fu'r patrwm yng Nghymru wrth i gyfraith Lloegr ei disodli. A llunio dogfennau cyfreithiol yn gynyddol yn troi'n weithgarwch ar gyfer copiwrwr proffesiynol, yng Nghymru naturiol oedd i'r copiwrwr hyn ddefnyddio'r un patrwm a'r un iaith â'u cymheiriaid yn Lloegr. Felly, ddegawdau cyn i'r **Deddfau 'Uno'** wahardd y Gymraeg o fyd materion cyhoeddus, roedd Saesneg eisoes yn prysur ddatblygu'n iaith swyddogol Cymru. Sicrhodd y ddeddf y byddai gweinyddiad lleol yng Nghymru yn nwylo'r uchelwyr Cymreig, ond byddai'n rhaid iddynt fod yn rhugl eu Saesneg. Ni olygai hynny fod disgwyl i'r uchelwyr droi cefn ar y Gymraeg, ond dyna a ddigwyddodd ymhen hir a hwyr wrth iddynt, yn gynyddol, dderbyn eu haddysg mewn ysgolion bonedd a phrifysgolion yn Lloegr ac wrth i apêl Llundain gynyddu. Prysurwyd hyn oll hefyd wrth i aeresau o Gymru ymbriodi â theuluoedd o Loegr.

Ar y cychwyn roedd hi'n ymddangos fel petai'r **Diwygiad Protestannaidd** am droi'r fantol ymhellach yn erbyn y

Gymraeg. Fodd bynnag, yn fuan wedi i'r iaith gael ei gwahardd o fyd gweinyddiad seciwlar, sicrhodd y **Beibl Cymraeg** yn 1588 a'r defnydd a wnaed ohono, ynghyd â'r **Llyfr Gweddî Gyffredin**, yn y rhan fwyaf o eglwysi Cymru fod i'r iaith ran swyddogol o bwys mewn bywyd crefyddol. Yn ystod y canrifoedd dilynol fe gâi'r iaith hyd yn oed fwy o swer o ganlyniad i dwf y bywyd crefyddol answyddogol hwnnw a gynrychiolir gan **Anghydfurfiaeth ac Ymneilltuaeth** a daeth llawer o'i charedigion i dderbyn yn ddigwestiwn fod ei thynged yn annatod glwm wrth dynged **crefydd**.

Symbylwr y gwaith o gyfieithu'r ysgrythrau i'r Gymraeg oedd **William Salesbury**, prif ffigwr y **Dadeni** yng Nghymru. Roedd Salesbury yn awyddus i weld y dyneiddiaeth newydd yn cyfoethogi'r Gymraeg a'r iaith yn ei thro yn datblygu'n gyfrwng addas ar gyfer dyneiddiaeth. Mae'r traddodiad a gynrychiolir ganddo yn un tra chyfoethog, a'r un awydd i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith dysg, a bod ei chyfoeth yn hysbys i bawb, a ysbrydolai glerigwyr Anglicanaidd megis **Evan Evans** (1731?-88) a'r **hen bersoniaid llengar**, prif gynheiliaid urddas yr iaith hyd nes i golegau prifysgol gael eu sefydlu yng Nghymru yn niwedd y 19g.

Hyd at gyfrifiad 1891 ni cheir unrhyw ystadegau dibynadwy ynghylch nifer siaradwyr y Gymraeg. Yn 1570 amcangyfrifai Syr Thomas Phillips fod nifer trigolion Cymru oddeutu 325,000 a bod tua 250,000 yn siarad Cymraeg, y mwyafrif llethol ohonynt, yn ddiau, yn Gymry uniaith. Yn ystod y ddwy ganrif ddilynol, cryfhau ymhellach fu hanes yr iaith yn y bwrdeistrefi ac mewn ardaloedd megis Bro Morgannwg (gw. uchod). Ond law yn llaw â hynny gwelwyd erydiad ieithyddol sylweddol ar hyd y Gororau, yn arbennig felly yn **Sir Faesyfed** a oedd, i raddau helaeth, yn sir Saesneg o ran iaith erbyn diwedd y 18g. Mae cryn bwysigrwydd i waith **Griffith Jones**, **Llanddowror**, a sicrhodd trwy gyfrwng ei **ysgolion cylchynol** fod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn gymharol lythrennog erbyn diwedd y 18g. Dyma fantais aruthrol na ddaeth i ran unrhyw iaith anwladwriaethol arall yn Ewrop, ac na ddaeth hyd yn oed i ran cyfran dda o'r ieithoedd gwladwriaethol.

Dangosodd cyfrifiad 1801 fod 587,245 o drigolion yng Nghymru, ac mae'n bosibl fod tua 470,000 o'r rhain yn siarad Cymraeg. Yn 1901 roedd yng Nghymru 1,864,696 o drigolion dros dair oed, a haerai 929,824 ohonynt eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn achos nifer y rhai a fedrai siarad Saesneg bu cynnydd nawplyg, o tua 175,000 yn 1801 i 1,583,791 yn 1901. Er bod y 19g., felly, yn gyfnod a welodd siaradwyr y Gymraeg yn cynyddu o ran rhifau absoliwt – patrwm sy'n gwrthgyferbynnu'n glir â'r Wyddeleg a welodd nifer ei siaradwyr yn mwy na haneru yn ystod yr un cyfnod – a'u hystyried fel canran o'r boblogaeth, gwelwyd lleihad yn hanes siaradwyr y Gymraeg dros yr un cyfnod, o 80% i 50%. Ymhellach, rhwng 1801 ac 1901 trodd Saesneg o fod yn iaith leiafrifol yng Nghymru i fod yn iaith y mwyafrif: yn 1901 haerai 84% o drigolion Cymru eu bod yn medru ei siarad, er nad oedd, mae'n amlwg, yn iaith a ddefnyddid yn ddyddiol gan y rhain i gyd.

Mae'n debyg mai yn ystod yr 1870au y gwelwyd niferoedd y rhai hynny a fedrai siarad Saesneg yn mynd yn fwy na niferoedd y rhai hynny a fedrai siarad Cymraeg. Y rheswm amlwg dros y fath newid ieithyddol oedd diwydiannu meysydd **glo'r** de a'r gogledd-ddwyrain. (Gyda'u patrwm ymfudo o froydd cyfagos, arhosodd ardaloedd y

chwareli **llechi** yng Ngwynedd yn gadarnleoedd i'r Gymraeg.) Er hynny, fe ddeilliodd lles i'r iaith o'r diwydiannu hwn: hebddo byddai trigolion ardaloedd gwledig gorboblog wedi cael eu gorfodi i adael Cymru er mwyn ennill bywoliaeth, sef tynged miliynau o siaradwyr Gwyddeleg o orllewin Iwerddon. (Wrth gwrs fe fu ymfudo sylweddol o Gymru ei hunan hefyd, a rhoddodd hynny fod i gymdeithasau Cymraeg eu hiaith mewn mannau megis **Lerpwl**, **Llundain**, **Pensylania** a **Phatagonia**.) A'u cyflogau'n uwch na'r hyn a geid yng nghefn gwlad, bu ymddangosiad ardaloedd diwydiannol o fantais fawr i'r Gymraeg. Oni bai amdanynt hwy, prin y byddai'r fath lewyrch ar grefyddau Anghydfurfiol ac ar yr elfennau eraill hynny, megis y wasg gyfnodol, y **gymanfa ganu**, y bywyd corawl a'r **eisteddfod**, a ystyrir yn rhan mor ganolog o ddiwylliant Cymraeg y 19g.

Serch hynny, denwyd siaradwyr Saesneg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg i'r peiriau diwydiannol hyn. Ar y cychwyn llwyddai'r siaradwyr Cymraeg i gymathu'r siaradwyr Saesneg, ond wrth i'r 19g. fynd rhagddi aeth nifer y mewnudwyr Saesneg yn uwch na nifer y mewnudwyr Cymraeg eu hiaith. Erbyn 1901 dosbarth trefol Rhymni oedd yr unig ran o Sir Fynwy â thros hanner ei phoblogaeth yn medru'r Gymraeg. Roedd ffactorau eraill hefyd yn milwrio yn erbyn yr iaith. Ymhlith y rhain yr oedd yr ymosodiad arni gan awduron yr Adroddiad ar Gyflwr Addysg yng Nghymru yn 1847 (gw. **Brad y Llyfrau Gleision**), y diffyg cydnabyddiaeth iddi yn y rhwydwaith o ysgolion elfennol a grëwyd yn yr 1870au, ynghyd â bri rhyfeddol yr Ymerodraeth Brydeinig a'i phrif iaith – Saesneg. Ymhlith siaradwyr Cymraeg coledid y gred nad oedd cofleidio'r Saesneg yn fygythiad yn y byd i'w mamiaith oblegid yr oedd honno wedi ei hangori'n ddiogel wrth fywyd y capeli. Yng ngeiriau un o bregethwyr enwog yr oes, y Parchedig Kilsby Jones (1813-89): 'glynwech ar y Sul wrth yr iaith Gymraeg... ond pan ddêl bore dydd Llun, cynghoraf chwi i ddysgu Saesneg, canys hi yw iaith masnach, ac iaith y genedl fwyaf anturiaethus ar wyneb y ddaear'. Ymhellach, yn yr ardaloedd diwydiannol creodd y gwrthdaro cynyddol chwerw â chyfflogwyr yr angen am undod cymdeithasol. Yng ngeiriau **Gwyn Thomas** (1913-91), wrth iddo sôn am yr amrywiol bobloedd a oedd yn symud i'r **Rhondda**, 'The Welsh language stood in the way of our fuller union, and we made ruthlessly haste to destroy it. We nearly did'.


Yn ystod hanner cyntaf yr 20g. wynebodd yr iaith Gymraeg fygythiadau newydd, yn eu plith y colledion a'r ansefydlogrwydd a achoswyd gan y **Rhyfel Byd Cyntaf** a'r **Ail Rhyfel Byd** ac, yn bennaf oll, y **dirwasgiad** rhwng y ddau ryfel pan welodd Gymru golli yn agos at 400,000 o'i phobl trwy allfudiad. A hwythau wedi eu tynghedu i symud yn y man i Dagenham neu Coventry, ni welai llawer o rieni unrhyw bwrpas i drosglwyddo'r iaith i'w plant. Ganrif ynghynt yr un ystyr iaeth economaidd a achosodd i niferoedd mawr o Wyddelod droi cefn ar eu mamiaith. Roedd hen gadarnleoedd yr iaith, y capeli Anghydfurfiol, yn gynyddol mymlol ym mywyd y genedl. Daeth y sinema (gw. **Ffilm**), cyfrwng cwbl Saesneg, yn eithriadol o boblogaidd; felly hefyd y **papurau newydd** Saesneg a darllediadau radio'r BBC a oedd bron i gyd yn yr iaith fain. Nid yw'n annisgwyl felly fod llawer yn ystod y 1930au yn darogan yn hyderus fod tranc y Gymraeg gerllaw.

Ond dangosodd y Gymraeg wydnwch rhyfeddol. Yn 1922 sefydlwyd **Urdd Gobaith Cymru** a aeth ati'n egniol i

greu delwedd fwy apelgar i'r iaith ymhlith yr ifanc, ac roedd adfer y Gymraeg yn briod iaith Cymru yn rhan greiddiol o raglen wleidyddol **Plaid [Genedlaethol] Cymru** a sefydlwyd yn 1925. Mewn adroddiad a wnaed ar ran y llywodraeth, **Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd** (1927), dadleuwyd y dylid galluogi ysgolion cynradd i ddysgu Cymraeg i holl blant Cymru. Ar yr un pryd, roedd ysgolheictod llenyddol ac ieithyddol Adrannau Cymraeg **Prifysgol Cymru** yn datguddio o'r newydd gyfoeth yr iaith mewn canrifoedd a fu. Yng nghanol y 1930au sicrhodd y Gymraeg gyfran sylweddol o oriau darlledu'r BBC yng Nghymru ac aeth **Deddf Llysoedd Cymru (1942)** rywfaint o'r ffordd tuag at ddiryму'r cyfyngiadau a osodwyd ar y Gymraeg yng nghymalau iaith Deddf 'Uno' 1536.

Gwelodd y degawdau ar ôl yr Ail Ryfel Byd ymdrechion taerach fyth i feithrin yr iaith. Yn sgil sefydlu'r ysgol gynradd ddynodedig Gymraeg gyntaf o dan ofal awdurdod lleol yn **Llanelli** yn 1947, gwelwyd dechrau mudiad tra llwyddiannus yr ysgolion Cymraeg. Yn 1956 agorwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf, Ysgol Glan Clwyd yn Sir y Fflint, a bu rhai ymdrechion petrus i ddarparu cysiau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru. Roedd twf y **Mudiad Ysgolion Meithrin** yn llawer mwy dramatig ac erbyn dechrau'r 21g. byddai'r grwpiau a'r ysgolion meithrin o dan ei adain yn cael eu mynychu gan dros 15,000 o blant. Yn 1988 llwyddodd y Cwricwlwm Cenedlaethol i hyrwyddo statws y Gymraeg yn holl ysgolion Cymru, a diwallwyd yr angen hefyd am ddeunyddiau dysgu apelgar, yn fwyaf arbennig gan y Ganolfan Adnoddau yn **Aberystwyth**. Ymhlith ymdrechion eraill yr oedd creu **Cyngor Llyfrau Cymru** yn 1961, dechrau gwasanaeth teledu BBC Cymru yn 1964 a **Deddf yr Iaith Gymraeg 1967**. Rhod hwb hefyd i fyd y **ddrama** Gymraeg o'r 1960au ymlaen yn sgil grantiau gan **Cyngor Celfyddydau Cymru**, ac yn ystod y 1970au gwelwyd sefydlu'r **papurau bro** cyntaf. Yn fwy arwyddocaol, trawsnewidiwyd diwylliant yr ifanc yn ystod y 1960au a'r 1970au. Cofleidiwyd y gitâr drydan â chrynn frwdfrydedd yn y Gymru Gymraeg a chrëwyd byd pop Cymraeg (gw. **Cerddoriaeth**), datblygiad cyffrous a oedd yn cyd-fynd â phrotestiadau herfeiddiol y mudiad iaith (gw. isod).

Cyfrifiad 1891 oedd y cyntaf i gofnodi ystadegau a oedd yn ymwneud â chyflwr ieithyddol Cymru. (Gwnaed hynny eisoes yn achos Iwerddon yn 1851, yn **Ynys Manaw** yn 1871 ac yn yr Alban yn 1881.) Wrth gasglu'r ystadegau hyn, prif gymhelliaid y llywodraeth oedd ceisio darganfod i ba raddau y gellid gweinyddu Cymru drwy gyfrwng y Saesneg. Oherwydd hynny, ymwneud â'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg yr oedd y prif gwestiwn. Mae'n gwbl amlwg fod niferoedd y Cymry uniaith wedi eu gorbwysleisio yng nghyfrifiad annibynadwy 1891, ond parhaodd unieithrwydd Cymraeg i nodweddu sawl man yng Nghymru ymhell i mewn i'r 20g. Yn 1921, pan oedd 6.3% o drigolion Cymru yn uniaith Gymraeg, 31% oedd y ffigur cyfatebol ar Ynys Môn a 22.1% yn **Sir Feirionnydd**. Ym mhlwyf chwarellyddol **Llanddeiniolen** nid oedd gan 56% o'r trigolion unrhyw wybodaeth o Saesneg, ac roedd un plwyf yn **Llŷn** (Bodferin; gw. **Aberdaron**) lle'r oedd pawb yn uniaith Gymraeg. Yn ystod y 1960au neu'r 1970au, mae'n debyg, y bu farw'r siaradwyr uniaith olaf, er bod rhai gwladgarwyr dwyieithog, o dan ddylanwad **Saunders Lewis**, wedi parhau i ddatgan ar ffurflenni'r cyfrifiad mai Cymry uniaith Gymraeg oeddynt.



Niferoedd siaradwyr y Gymraeg yn 2001

Yng nghyfrifiad 1981 y gofynnwyd cwestiwn ynghylch y gallu i siarad Saesneg am y tro olaf. Ar ôl hynny, cymerwyd yn ganiataol – a hynny'n gwbl gywir fe ymddengys – nad oedd bellach oedolion o Gymry Cymraeg na fedrent hefyd siarad Saesneg, er bod unieithrwydd i'w gael o hyd ymhlith plant bach.

Y lleihad cyson yn nifer siaradwyr y Gymraeg a ddangosid gan un cyfrifiad ar ôl y llall oedd cyd-destun *Tynged yr Iaith*, y ddarlith radio enwog a draddodwyd gan Saunders Lewis yn 1962. Bu'r ddarlith yn ysbyrdoliaeth i sefydlu **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg** a aeth ati trwy ddulliau protest ac anafudd-dod sifil i geisio sicrhau statws swyddogol

Tabl 2
Siaradwyr Cymraeg, 1901–2001

	Trigolion Cymru dros 3 oed	Siaradwyr Cymraeg	%
1901	1,864,696	929,824	49.9
1911	2,247,927	977,366	43.5
1921	2,486,740	922,092	37.1
1931	2,472,378	909,261	36.8
1951	2,472,429	714,686	28.9
1961	2,518,711	656,002	26.0
1971	2,602,955	542,425	20.9
1981	2,688,926	508,207	18.9
1991	2,723,623	508,098	18.6
2001	2,805,701	575,604	20.52

i'r iaith. Arweiniodd gweithgareddau'r Gymdeithas ac achosion llys di-ri at gyfnodau mewn carchar i lawer o'i haelodau, a throdd hynny holl fater yr iaith yn bwnc gwleidyddol llosg. Cafodd y Gymdeithas lwyddiannau nodedig megis gosod arwyddion ffyrdd dwyieithog, **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** (a arweiniodd at sefydlu **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**) ac, yn bennaf oll, sefydlu Sianel Pedwar Cymru (**S4C**) yn 1982.

Yn sgil hyn oll, trawsnewidiwyd agweddau tuag at yr iaith, ac mae hynny'n amlwg erbyn hyn mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Lle gynt y byddai presenoldeb un siaradwr di-Gymraeg yn troi iaith pwyllgor i'r Saesneg, bellach y mae offer cyfieithu ar y pryd yn caniatáu trafodaethau dwyieithog. Cyngor Sir Gwynedd oedd yr arloeswyr mawr yn hyn o beth, a mabwysiadwyd yr un drefn gan **Gynulliad Cenedlaethol Cymru**.

O edrych ar ganlyniadau cyfrifiad 2001, mae'n amlwg fod yr ymdrechion hyn wedi dwyn rhywfaint o ffrwyth. Allan o'r 22 sir yng Nghymru, gwelwyd fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu mewn 14 sir yn ystod y cyfnod 1991–2001. Fodd bynnag, yr oedd ochr arall i'r geiniog. Roedd y siroedd lle cafwyd y cynnydd yn siroedd lle bu'r Saesneg yn tra-arglwyddiaethu ers hir amser, ac ni fu cynnydd cyffelyb yn y siroedd a ystyrir yn gadarnleoedd yr iaith. Yn 1961 yr oedd o hyd yng ngogledd a gorllewin Cymru graidd tiriogaethol eang, a oedd yn cynrychioli 36.8% o arwynebedd Cymru, lle ceid **plwyfi** gyda thros 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn 1974 ad-drefnwyd y plwyfi sifil yn gynghorau **cymuned** neu gymunedau. Yn 2001 roedd 867 o'r cymunedau hyn, ond dangosodd cyfrifiad y flwyddyn honno mai dim ond mewn naw cymuned yr oedd canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch nag 80%, sef **Llangefni**, y **Bontnewydd**, **Caernarfon**, **Llanberis**, **Llanllyfni**, **Llanuwchllyn**, **Llanwnda**, **Llanycil** (y cyfan yng Ngwynedd) ac **Ysbyty Ifan (Conwy)**. (Mae'r Athrawon Carter ac Aitchison, yr arbenigwyr pennaf ar dddearyddiaeth ieithyddol Cymru, yn dadansoddi ystadegau'r cyfrifiad ar sail wardiau etholiadol, ond gan fod ymdriniaeth y Gwyddoniadur hwn ag ardaloedd Cymru yn seiliedig ar gymunedau ni ddilynwyd eu harweiniad yma.) O blith holl gymunedau Cymru, yng Nghaernarfon y ceir y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (87.23%), a dengys hyn fod y Gymraeg, efallai, yn prysur droi'n iaith drefol er mai gwledig oedd ei chadarnleoedd mewn dyddiau a fu.

Yn rhai o hen gadarnleoedd yr iaith – cymoedd Gwen-draeth ac Aman, er enghraifft – gellir priodoli'r lleihad yng nghanran siaradwyr Cymraeg i anallu neu amharodrwydd rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant, ond y brif elfen dan-seiliol yn y rhan fwyaf o'r hen gadarnleoedd fu mewnffudo, a hynny'n bennaf o Loegr. Yn 2001 roedd 41.1% o drigolion Ceredigion wedi eu geni y tu allan i Gymru, a'r ffigur cyfatebol ar Ynys Môn oedd 32.5%. Er bod rhai o'r newydd-ddyfodiaid hyn wedi ymroi'n egniol i feistrolï'r Gymraeg a chyfrannu at weithgarwch mudiadau megis **CYD** (Cyngor y Dysgwyr) a **Cymuned**, ymddengys fod y mwyafrif ohonynt yn gwbl anymwybodol o'u hamgylchfyd diwylliannol newydd ac o nodweddion ieithyddol unigryw eu gwlad fabwysiedig.

Er bod, felly, elfen o gysur i garedigion yr iaith yng nghyfrifiad 2001, cwyd yr ystadegau gwestynnau pwysig. Ar dirywiad yng nghadarnleoedd yr iaith heb ei atal, a fydd modd i'r iaith oroesi a'r rhan fwyaf o'i siaradwyr yn byw mewn ardaloedd lle y mae, yn gynyddol, yn iaith y lleiafrif?

Yng ngogledd-orllewin Cymru, yr unig ardal lle'r ymddengys fod y Gymraeg fel petai'n dal ei thir yw Caernarfon a'r cyffiniau, ond mae'n werth nodi na fu ychwaith unrhyw newid ieithyddol sylweddol ymhlith y boblogaeth frodorol mewn mannau megis Ceredigion, Ynys Môn a Meirionnydd, er i'r mannau hynny brofi mewnffudo sylweddol oddi ar y 1960au. Hawdd yw anghofio hefyd fod nifer sylweddol o Gymry Cymraeg yn byw'n agos at ei gilydd mewn ardaloedd trefol. Mewn rhannau o Gaerdydd, er enghraifft, ceir dros 350 o siaradwyr Cymraeg i bob cilomedr sgwâr, ac mae hynny'n rhoi bod i rwydweithiau cymdeithasol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal hyfywedd ieithyddol.

Efallai fod tuedd ormodol i weld yr ochr dywyll wrth drafod rhagolygon y Gymraeg. O'i chymharu â llawer iawn o ieithoedd eraill mae ganddi gryfderau sylweddol. Gellir darogan â sicrwydd llwyr mai'r Gymraeg fydd iaith gyntaf lliaws o unigolion nad ydynt eto wedi eu geni – honiad na ellir ei wneud yn achos dros hanner ieithoedd y byd ar ddechrau'r 21g. Yn ôl arolwg a wnaed gan yr arbenigwr ar ieithoedd, David Crystal, o ddyfodol ieithoedd y byd, y mae'r Gymraeg ymhlith y 15% uchaf o ran ei rhagolygon. Mae hynny'n ffaith gwbl ryfeddol o gofio mai hi, trwy holl ganrifoedd ei bodolaeth, fu cymdogaes agosaf Saesneg – iaith sydd wedi bwrw ieithoedd dirifedi i ebargofiant ym mhedwar ban y byd.

CYMREIGYDDION, Cymdeithas y

Y fwyaf democrataidd ei hysbryd o'r cymdeithasau Cymreig Llundainig. Fe'i sefydlwyd yn 1794, a'i hamcan oedd diogelu'r **Gymraeg** 'yn ei phurdeb' trwy gynnal trafodaethau ar bynciau moesol ac ar faterion o bwys. Ymhlith sylfaenwyr y gymdeithas yr oedd Jac Glan-y-Gors (**John Jones**; 1766–1821) a **Thomas Roberts** (Llwyn'rhudol). Fel y **Cymmrodorion** arferai'r Cymreigyddion gynnal ei chyfarfodydd yn nhafarndai **Llundain**, ac fel y dengys cofnodion y gymdeithas byddai ei thrafodaethau yn aml yn gymysg â chryn rialtwch. Erbyn canol y 19g. roedd parchusrwydd oes Victoria wedi pylu'r hen asbri gynt, a daeth terfyn ar gyfarfodydd y gymdeithas yn 1855. Fodd bynnag, yng Nghymru yn ystod y 19g., a chan efelychu'r Cymreigyddion gwreiddiol, sefydlwyd nifer o gymdeithasau llenyddol yn dwyn yr un enw; yr amlycaf ohonynt oedd Cymreigyddion y Fenni (gw. **Fenni, Y, Augusta Hall** a **Thomas Price** (Carnhuanawc)).

CYMRU, Hanes

Y dystiolaeth gynharaf o bresenoldeb bodau dynol yng Nghymru (gw. **Oesau Cynhanesyddol**: yr Oes Balaeolithig a'r Oes Fesolithig) yw dannedd sy'n perthyn i gyfnod 250,000 o flynyddoedd yn ôl a ddarganfuwyd yn ogof Bont Newydd yn Nyffryn Elwy (**Cefn Meiriadog**). O'r braid fod perchennog y dannedd – aelod o'r rhywogaeth *Homo sapiens neanderthalensis* – ymhlith hynafiaid Cymry'r presennol gan i'r wlad, mae'n debyg, o ganlyniad i gyfresi o oesoedd iâ, fod yn anghyfannedd am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Serch hynny, dichon y bu adegau eraill yn y cyfnod Is-Balaeolithig (cyfnod cynharaf Hen Oes y Cerrig) pan oedd bywyd dynol yng Nghymru, yn arbennig yn ogof Coygan (**Talacharn**) ac ogof Ffynnon Beuno (**Tremeirchion**). O c.35,000 cc ymlaen, bu datblygiad trawiadol yn safon ac